



StoryFutures /ACADEMY/

National Centre for Immersive Storytelling

NFTS

NATIONAL
FILM AND
TELEVISION
SCHOOL



UK Research
and Innovation



INDUSTRIAL
STRATEGY



ROYAL
HOLLOWAY



Datganiad i'r Wasg
23 Mehefin 2022

Gwahodd trigolion i weld Dundee a Dumfries yn wahanol wrth i gyfres o ddigwyddiadau adrodd straeon arloesol am ddim ledled y DU gael eu lansio yn yr Alban

Dros yr haf, mae [StoryTrails](#), profiad adrodd straeon ymgolli mwyaf y DU, yn gwahodd trigolion Dundee a Dumfries i glywed straeon lleol nas adroddwyd o'r blaen am bob tref drwy dechnolegau amlgyfrwng arloesol. Mae'r actores ac un o drigolion Dumfries Joanna Lumley a'r athletwraig o Dundee Eilish McColgan ymhlith yr adroddwyr straeon sy'n amrywio o Olympiaid anghofiedig Dundee, i goroni 'Brenhines y De' yn flynyddol yn Dumfries.

Mae StoryTrails, sy'n rhan o UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU, yn dod i'r Alban gyda dau ddigwyddiad byw am ddim sy'n cael eu cynnal ar 7 ac 8 Gorffennaf yn Dundee ac ar 12 a 13 Gorffennaf yn Dumfries, fel rhan o daith o amgylch 15 o drefi a dinasoedd ledled y DU eleni. Wedi'i ganoli o amgylch Llyfrgell Ganolog Dundee a Llyfrgell Ewart yn Dumfries, yn ogystal ag ar strydoedd y trefi eu hunain, mae'r digwyddiadau'n cynnwys profiadau digidol sy'n caniatáu i bobl gael profiad cwbl newydd o'r dref drwy hud a lledrith realiti estynedig (AR), realiti rhithwir (VR) a sinema ymgolli. Mae'r ddau ddigwyddiad StoryTrails yn yr Alban yn rhan o raglen bartner Blwyddyn Straeon 2022 yr Alban.

Yn Dumfries, mae'r llwybr AR wedi'i ddatblygu gan y Gwneuthurwr AR Symudol lleol DJ McDowell ac mae'n cael ei leisio gan yr actores Joanna Lumley. Mae'r llwybr yn dathlu traddodiad go mlynedd Dumfries o goroni 'Brenhines y De' yn y Guid Nychburris blynyddol neu'r Wyl Cymdogion Da. Mae'r llwybr yn cynnwys breninesau drwy hanes, o freninesau carnifal sy'n plesio'r dorf i freninesau rebel, a breninesau cymunedol modern, sy'n herio ystrydebau.

Yn Dundee, mae'r llwybr wedi'i ddatblygu gan y Gwneuthurwr AR Symudol lleol Duncan Cowles ac mae'n cael ei leisio gan y rhedwr a'r Olympiad Eilish McColgan sy'n dod o Dundee. Mae'n dilyn stori dau o arwyr chwaraeon Dundee, Dick McTaggart, a enillodd fedal aur Olympaidd ym 1956 mewn bocsio amatur, a Sarah 'Cissie' Stewart, a enillodd fedal Olympaidd gyntaf Dundee ym 1921 am nofio. Cyflawnodd y ddau athletwr ogoniant Olympaidd, ac eto dim ond Dick a gafodd ei gydnabod ar ôl iddo ddychwelyd o'r Gemau.

Mae'r ddau lwybr AR yn defnyddio ffilm cine a ffilm fideo o ffilmiau cartref, a ffotograffiaeth gan y BBC a Sefydliad Ffilm Prydain, yn ogystal â deunyddiau archif lleol a chenedlaethol i gyflwyno ffenestr i'r gorffennol. Gall ymwelwyr fenthyg dyfeisiau o'r llyfrgell a dilyn llwybr realiti estynedig wedi'i dywys sy'n dechrau ar yr awr drwy gydol y digwyddiadau byw. Gallant hefyd lawrlwytho ap StoryTrails ar eu ffôn clyfar a dilyn y llwybr StoryTrails o'r tu allan i'r llyfrgelloedd. Gellir dilyn y ddau lwybr hefyd drwy'r ap symudol y tu allan i'r ddau ddigwyddiad byw, gan y bydd yr ap ar gael i'w lawrlwytho tan ddiwedd y flwyddyn.

Ym mhob lleoliad bydd gosodiad ffisegol hefyd sy'n unigryw i'r dref ac yn cael ei weld ar sgrin sinema gylchol wedi'i gosod y tu mewn i'r llyfrgelloedd. Mae map rhithwir o'r trefi wedi'i greu gan ddefnyddio sganiau 3D o'r adeiladau lleol, pobl, gwrthrychau ac ardaloedd, yn adrodd straeon am bobl a lle. Bydd y ffilm 15 munud hon yn chwarae ar ddolen drwy gydol y dydd. Gellir gweld fersiwn estynedig o'r map hefyd ar iPads y tu mewn i'r llyfrgell.

Yn Dundee, cafodd y map ei ddatblygu gan fapiwr straeon gofodol lleol, Neil Cullen, ac mae'n cynnwys lleoedd eiconig o dirnodau sefydledig fel y Melinau Jiwt i ffefrynnau lleol, fel Spex Pistols a Dudhope Skatepark.

Roedd Duncan, Neil a DJ yn dri o 50 o bobl greadigol ddatblygol ledled y DU a gafodd eu dewis i gymryd rhan yn natblygiad StoryTrails ac elwa ar gyfleoedd hyfforddi a mentora arbenigol gan Academi StoryFutures, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Adrodd Straeon Ymgolli, y tîm y tu ôl i StoryTrails. Mae Academi StoryFutures yn cael ei rhedeg gan Royal Holloway, Prifysgol Llundain a'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol (NFTS).

Dyweddodd DJ: "Mae wedi cymryd misoedd o waith i gyrraedd y pwynt hwn ac ni allwn gredu ein bod ni'n cael ei rannu â phawb o'r diwedd. Rydym wedi datgelu straeon anhygoel am gymeriadau lleol pwerus sy'n haeddu cael eu hadrodd. Rydym wedi gweithio'n agos gydag archifau BFI a'r BBC i helpu i adrodd y straeon hynny ac rydym yn defnyddio technolegau newydd fel AR i roi bywyd iddyn nhw mewn ffordd sy'n eu gwneud yn hygyrch i bawb. Os nad oes gennych ffôn clyfar gallwch fenthg un ar y diwrnod – dewch draw i'r llyfrgell ym mis Gorffennaf a byddwch yn gallu rhoi cynnig ar y cyfan, am ddim."

Mae teithio trwy amser yn parhau y tu mewn i'r llyfrgelloedd drwy gydol dau ddiwrnod y digwyddiad byw, pan fydd ymwelwyr yn mynd i fydoedd a grëwyd yn ddigidol gan ddefnyddio clustffonau realiti rhithwir (VR). Gallant ddisgwyl gweld eu hunain mewn esgidiau merch wrthryfelgar yn ei harddegau wrth iddi ddarganfod gorffennol pync ei mam; cymryd rhan mewn un o'r lluoedd o bartion gwyllt De Asiaidd yn ystod y dydd a gynhaliwyd ledled y DU yn y 1980au a'r 1990au; a chlywed sut beth yr oedd cenedlaethau cynharach yn meddwl y byddai bywyd heddiw. Mae'r holl straeon sydd ar y clustffonau VR ar gael ym mhob arhosfan ar daith StoryTrails UK.

Mae'r hanesydd a'r cyflwynydd teledu David Olusoga, sy'n gyfarwyddwr i wylwyr *A House in Time* y BBC, yn lleisio profiad AR arall sy'n gwahodd ymwelwyr i droi deial ar radio enfawr rhithwir a theithio yn ôl mewn amser. O Beatlemania a throwsus fflêr a gwalltiau'r chwedegau, i ddawnsio i ddiwedd y mileniwm mewn topiau byr a threinyrs, bydd cynulleidfaoedd yn cael profiad o hanes tameidiog y DU drwy'r degawdau.

Arweinir y prosiect arloesol hwn gan Academi StoryFutures, y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Adrodd Straeon Ymgolli. Fe'i datblygwyd gan dimau o dechnolegwyr a phobl greadigol blaenllaw, a ddaeth ynghyd ar gyfer UNBOXED: Creadigrwyd yn y DU, dathliad o greadigrwyd ledled y DU yn 2022, gan gynnwys arloeswyr animeiddio ymgolli, ISO Design a Nexus Studios, a'r cwmni y tu ôl i Pokémon GO, Niantic. Mae'n dod yn fyw yn rhwydwaith cenedlaethol yr Asiantaeth Ddarllen o lyfrgelloedd a gan arbenigwyr creu digwyddiadau ProduceUK.

Dyweddodd yr Athro James Bennett, Cyfarwyddwr StoryFutures a StoryTrails: "Mae hyn yn ymwneud â chael pobl i gyffroi am ble maen nhw'n byw – gan eu helpu i gysylltu â straeon am eu tref o'r gorffennol a'r presennol drwy lens newydd. Gall technolegau newydd fel AR a VR helpu i adeiladu'r cysylltiadau hyn ac ail-danio angerdd pobl am y gorffennol. Mae'r technolegau hyn i bawb – rydym yn awyddus i ddod o

hyd i ffyrdd o ymgysylltu â phobl o bob cenhedlaeth a sbarduno dathliad gwirioneddol ym mhob un o'n lleoliadau anhygoel.”

Dywedodd Martin Green CBE, Prif Swyddog Creadigol UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU: “Mae StoryTrails yn un o ddeg prosiect arloesol UNBOXED sy'n cael eu cynnal yn 2022 sy'n dangos pŵer cydweithio creadigol ar draws gwyddoniaeth, technoleg a'r celfyddydau i greu profiadau cyhoeddus eithriadol nas gwelwyd erioed o'r blaen. Mae StoryTrails yn defnyddio technoleg arloesol i gynnig cyfle i bobl glywed am y lleoedd maen nhw'n byw – straeon unigolion a chymunedau – mewn ffordd gwbl newydd.”

Mae taith 15-stop StoryTrails yn y DU yn rhedeg o 1 Gorffennaf i 18 Medi 2022 ac yn arwain at ffilm newydd a gyflwynwyd gan David Olusoga a fydd yn cael ei dangos yn sinemâu'r DU ac ar BBC iPlayer. Bydd ap StoryTrails, llwybrau stori realiti estynedig a mapiau ymgolli ar gael drwy gydol 2022. Mae Her Ddarllen yr Haf flynyddol yr Asiantaeth Ddarllen, ar gyfer plant 4 i 11 oed, yn dilyn thema StoryTrails.

Mae UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU yn cael ei ariannu a'i gefnogi gan bedair llywodraeth y DU ac yn cael ei gomisiynu a'i gyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Belfast, Cymru Greadigol ac EventScotland.

Mae StoryTrails yn digwydd:

- Dundee 7-8 Gorffennaf
- Dumfries 12-13 Gorffennaf

Lleoliadau:

- Llyfrgell Ganolog Dundee, Wellgate, Dundee DD1 1DB
- Llyfrgell Ewart, Catherine Street, Dumfries DG1 1JA

Oriau agor y llyfrgell: 11 - 7pm

Bydd ap StoryTrails yn lansio yn siopau iTunes a Google Play i gyd-fynd â'r digwyddiad. Bydd yr ap a'r llwybr ymgolli ar gael ar-lein drwy gydol 2022.

Mae StoryTrails yn rhan o raglen bartner Blwyddyn Straeon 2022 VisitScotland.

story-trails.com

Facebook ac Instagram @StoryTrailsProject. Twitter @StoryFuturesA

-Diwedd-

Ymholiadau gan y cyfryngau StoryTrails:

Truda Spruyt, Rheolwr Gyfarwyddwr, Four

storytrails@fourcommunications.com

07740 725206

Sara Parsons, Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau ar gyfer StoryTrails yn Royal Holloway, Prifysgol Llundain
sara.parsons@royalholloway.ac.uk

07467 858672

Ymholiadau gan y cyfryngau UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU:

Jeanette Ward, Rheolwr Cysylltiadau â'r Cyfryngau, UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU

Jeanette.ward@unboxed2022.uk

07729 930 812

Taith Fyw StoryTrails

Mae StoryTrails yn digwydd mewn 15 lleoliad ledled y DU, gyda phreswylfeydd deuddydd am ddim ym mhob tref o amgylch y llyfrgelloedd:

- Omagh, 1 – 2 Gorffennaf: Llyfrgell Omagh, 1 Spillars Place, Irishtown Road, Omagh BT78 1HL.
- Dundee, 7 – 8 Gorffennaf: Llyfrgell Ganolog Dundee, Wellgate, Dundee DD1 1DB
- Dumfries, 12 – 13 Gorffennaf: Llyfrgell Ewart, Catherine Street, Dumfries DG1 1JA
- Blackpool, 16 – 17 Gorffennaf: Llyfrgell Ganolog Blackpool, Queen Street, Blackpool FY1 1PX
- Bradford, 22 – 23 Gorffennaf: Llyfrgell y Ddinas Bradford, Centenary Square, 9 Aldermanbury, Bradford BD1 1SD
- Sheffield, 27 – 28 Gorffennaf: Llyfrgell Ganolog Sheffield, Surrey Street, Canol Dinas Sheffield, Sheffield S1 1XZ
- Lincoln, 30 – 31 Gorffennaf: Llyfrgell Ganolog Lincoln, Free School Lane, Lincoln LN2 1EZ
- Wolverhampton, 6 – 7 Awst: Llyfrgell Ganolog Wolverhampton, Snow Hill, Wolverhampton WV1 3AX
- Abertawe, 10 – 11 Awst: Llyfrgell Ganolog Abertawe, Heol Ystumllwynarth, Ardal Forwrol, Abertawe SA1 3SN
- Casnewydd, 13 – 14 Awst: Llyfrgell Ganolog Casnewydd, Sgwâr John Frost, Canolfan Kingsway, Casnewydd NP20 1PA
- Bryste, 20 – 21 Awst: Llyfrgell Ganolog Bryste, College Green, Bryste BS1 5TL
- Swindon, 27 – 28 Awst: Y Llyfrgell Ganolog Swindon, Regent Circus, Swindon SN1 1QG
- Slough, 3 – 4 Medi: Llyfrgell @ The Curve, William Street, Slough SL1 1XY
- Bwrdeistref Lambeth yn Llundain, 10 – 11 Medi: Llyfrgell Brixton, Brixton Oval, Llundain SW2 1JQ
- Bwrdeistref Lewisham yn Llundain, 17 – 18 Medi: Llyfrgell Catford, Laurence House, 1 Catford Road, Llundain SE6 9SE

UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU

DU gyfan, 1 Mawrth – 2 Hydref 2022

Unboxed2022.uk

Nodiadau i'r Golygyddion

Ynglŷn â StoryTrails

Mae StoryTrails yn brofiad adrodd straeon ymgolli unigryw, lle mae straeon cudd o'r gorffennol yn dod yn fyw drwy hud y rhyngwryd 3D gan ddefnyddio realiti estynedig a rhithwir i ail-lunio manau cyhoeddus mewn trefi a dinasoedd ledled y DU. Bydd cynulleidfaoedd yn teithio trwy amser drwy ryfeddod technolegau newydd i weld hanesion lleol cudd lle y gwnaethon nhw ddigwydd. Mae StoryTrails yn cael ei arwain gan Academi StoryFutures sy'n cael ei rhedeg gan Royal Holloway, Prifysgol Llundain a'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol (NFTS).

Mae StoryTrails yn un o 10 prosiect a gomisiynwyd ar gyfer [UNBOXED](#): Creadigrwydd yn y DU, dathliad arloesol ledled y DU o greadigrwydd yn 2022 a fydd yn dod â phobl at ei gilydd ac yn cyrraedd miliynau drwy osodiadau ymgolli ar raddfa fawr a phrofiadau digidol sydd ar gael yn fyd-eang ac am ddim yn arddangosfa fwyaf uchelgeisiol y DU o gydweithredu creadigol. Bydd StoryTrails yn gorffen gyda ffilm wedi'i chomisiynu'n arbennig gan David Olusoga a fydd yn cael ei dangos mewn sinemâu ledled y DU ac ar gael i gynulleidfaoedd ar BBC iPlayer.

Cyflwynir StoryTrails mewn partneriaeth â Sefydliad Ffilm Prydain (BFI), y darlledwr a'r gwneuthurwr ffilmiau, David Olusoga, y BBC, Uplands Television, a'r arbenigwyr ymgolli blaenllaw ISO Design a Nexus Studios. Bydd yn defnyddio technoleg arloesol gan Niantic, gwneuthurwyr Pokémon Go, a bydd yn dod yn fyw yn rhwydwaith cenedlaethol yr Asiantaeth Ddarllen o lyfrgelloedd a gan arbenigwyr creu digwyddiadau ProduceUK.

Mae StoryTrails yn rhedeg o 1 Gorffennaf – 18 Medi 2022. I gael rhagor o fanylion ewch i story-trails.com

Ynglŷn ag Academi StoryFutures - storyfutures.com/academy

Academi StoryFutures yw Canolfan Genedlaethol y DU ar gyfer Adrodd Straeon Ymgolli, sy'n cael ei rhedeg gan Royal Holloway, Prifysgol Llundain a'r Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol (NFTS). Wedi'i hariannu gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, sy'n rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, mae'r Academi yn datblygu rhaglenni hyfforddi ac ymchwil creadigol arloesol, i sicrhau mai gweithlu creadigol y DU yw'r mwyaf medrus yn y byd o ran defnyddio technoleg gynhyrchu rithwir, estynedig ac amser real ar gyfer adrodd straeon ymgolli.

Hyd yma, mae cyn-fyfyrwyr labordai'r Academi StoryFutures wedi cynnwys y Cyfarwyddwr Asif Kapadia sydd wedi ennill Oscar a BAFTA, y Goruchwyliwr VFX Oscar Paul Franklin sydd wedi ennill Oscar, a'r artist cysyniadol Gillian Wearing OBE sydd wedi ennill Gwobr Turner.

Gyda'n partneriaid, buddsoddwyd dros £1 miliwn mewn cynyrchiadau ymgolli yn y DU, ar draws cyd-gynyrchiadau gyda BBC3, a chyllid datblygu Production Booster a Kickstart. Y rhaglen ddogfen VR arobryn Common Ground oedd y cyd-gynhyrchiad cyntaf a ariannwyd erioed, a gafodd ei dangos am y tro cyntaf yng Ngŵyl Ffilm Tribeca ar ddechrau 2019. Dangoswyd Violence, cydweithrediad artistig rhwng y cyfarwyddwr ffilm Shola Amoo (The Last Tree) a'r cynhyrhydd Eleanor Whitley (Marshmallow Laser Feast), am y tro cyntaf yn y byd yng Ngŵyl Ffilm Tribeca, fel rhan o'r Cannes XR Virtual yn y Marché du film de Cannes, ym mis Mehefin 2020. Dangoswyd Laika, a gomisiynwyd gan StoryFutures Academy ac a gyfarwyddwyd gan Asif Kapadia, sydd wedi ennill Gwobr BAFTA a'r Academi, am y tro cyntaf yn y byd drwy VR yng Ngŵyl Ffilm BFI Llundain 2021 fel rhan o'u rhaglen Expanded.

Ynglŷn â Royal Holloway, Prifysgol Llundain – royalholloway.ac.uk

Mae Royal Holloway, Prifysgol Llundain, ymysg y 25 o brifysgolion gorau y DU. Drwy ymchwil o'r radd flaenaf sy'n ehangu meddyliau ac yn newid bywydau, ymroddiad ein hathrawon ac ymdeimlad profiad y Royal Holloway, mae ein cymuned ni yn un sy'n ysbrydoli unigolion i lwyddo'n academiaidd, yn gymdeithasol ac yn personol.

Sylfaenwyd y brifysgol gan ddau ddiwygiwr cymdeithasol a arloesodd y ddefnydd o addysg a gwybodaeth i bawb a allai elwa arni. Mae eu gweledigaeth yn parhau hyd heddiw. Fel un o brifysgolion ymchwil-ddwys blaenllaw y DU rydym yn gartref i rai o awdurdodau mwyaf blaenllaw y byd yn y gwyddorau, y celfyddydau, busnes, economeg a'r gyfraith. Rydym yn cael ein cryfhau gan amrywiaeth, ac yn croesawu myfyrwyr ac academyddion sy'n teithio o bob cwr o'r byd i astudio a gweithio yma, gan sicrhau persbectif rhyngwladol ac amlddiwylliannol o fewn campws agos a hanesyddol.

Ynglŷn ag UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU - unboxed2022.uk

Mae UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU yn ddathliad o greadigrwydd sy'n digwydd ledled y DU yn 2022, gyda'r nod o gyrraedd miliynau a dod â phobl at ei gilydd. Mae'n cynnwys digwyddiadau, gosodiadau a phrofiadau digidol ar raddfa fawr am ddim sydd ar gael yn fyd-eang yn arddangosfa fwyaf uchelgeisiol y DU o gydweithredu creadigol. Wedi'i gynhyrchu gan rai o'r meddyliau mwyaf disglair ym maes gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, y celfyddydau a mathemateg, mae UNBOXED yn cynnwys deg prosiect creadigol aml-safle a digidol mawr sy'n rhannu syniadau a phosibiliadau newydd ar gyfer y dyfodol. Cynhelir digwyddiadau a gweithgareddau rhwng 1 Mawrth a 2 Hydref 2022 – o Ynysoedd Allanol Heledd i Luton ac o Omagh i Abertawe, ac ar draws cyfryngau traddodiadol ac ar-lein. Mae UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU yn cael ei ariannu a'i gefnogi gan bedair llywodraeth y DU ac mae'n cael ei gomisiynu a'i gyflwyno mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Belfast, Cymru Greadigol ac EventScotland.



Funded by



Delivered in partnership with

